



MORLAN-PANTYFEDWEN ANNUAL LECTURE
2015

Gwragwn Tanc:
gwnawn
dangnefedd

Mererid Hopwood

CYFLWYNIAD

Canolfan yw **Morlan** sydd â'r nod o hybu bywyd cymunedol – yn ddiwylliannol ac ysbrydol, yn lleol a thu hwnt. Fe'i sefydlwyd yn Ebrill 2005 i greu pont rhwng yr eglwys a'r gymdeithas o'i chwmpas ac mae wedi datblygu yn ganolfan bwysig yn yr ardal. Ond mae Morlan yn llawer mwy nag adeilad ... mae'n fan cyfarfod – greu a thrafod, i wrando a dysgu, i ysgogi a chalonogi, i gyd-ddeall a chloio, i rannu a chyfrannu ... tir canol rhwng yr eglwys a phawb sy'n byw yn ein cymdeithas amlddiwylliannol.

Man croesawus a chyfeillgar ydyw sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hynny a bletha'r ddnoliaeth, pob crefydd a chred i'w gilydd. Gwêl ymddiriedolwyr Capel Presbyteriaid y Morfa, perchnogion Morlan, fod sefydlu a chefnogi'r ganolfan yn rhan o'u cenhadaeth.

Mae'n ganolfan gymunedol gydag ystafelloedd i'w llogi ar gyfer pob math o weithgareddau ond mae hefyd yn ganolfan ffydd a diwylliant sydd â'r nod o ddarparu gofod agored i bawb yn y gymuned ble gellir rhannu gwerthoedd Cristnogol – megis heddwch a chyfiawnder – trwy ddiwylliant yn ei ystyr ehangach. Gwneir hyn yn bennaf trwy raglen amrywiol o ddigwyddiadau – trafodaethau, anerchiadau, arddangosfeydd celf, dramâu a chyflwyniadau ac, ers Ebrill 2010, Darlith Flynyddol.

Mae gan **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** draddodiad hirach o drefnu darlithoedd. Yn 1961. traddododd Bleddyn Roberts y gyntaf o Ddarlithoedd Syr D.J. James ar bynciau crefyddol. Traddodwyd darlith Gymraeg am yn ail â darlith Saesneg yn flynyddol nes 1973 a bob dwy flynedd ers hynny, gan ymweld ag amryw safleoedd prifysgol ar draws Cymru. Mae'r rhestr o bobl a draddododd y ddarlith yn un faith ond yn cynnwys pobl megis W.T. Pennar Davies, Gwilym R. Tilsley a Richard Harries.

Yr oedd Syr D.J. James eisoes wedi sefydlu dwy ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o greu gwaddol parhaol er budd pobl Cymru – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (a sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (a sefydlwyd yn 1967). Daeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i fod fel dilyniant i'r ymddiriedolaethau hyn ym mis Ebrill 1998 pan sefydlwyd cynllun newydd a dderbyniodd fendith y Comisiwn Elusennau. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw: “... *hybu a hyrwyddo crefydd, addysg, y Celfyddydau ac amaethyddiaeth a phwrpasau elusennol eraill er budd y Cymry, yn bennaf yng Nghymru*”.

Yn ystod 2014, dechreuodd Morlan a'r Ymddiriedolaeth drafod y posibilrwydd o gydweithio ar y darlithoedd blynyddol hyn; roedd hyn yn ddatblygiad naturiol gan fod y ddau gorff yn rhannu llawer o werthoedd. Mae'r trafodaethau hynny bellach wedi dwyn ffrwyth a dyma felly'r cyntaf o **Ddarlithoedd Blynyddol Morlan-Pantyfedwen**.

Am ragor o wybodaeth am Morlan,
cysyllter â:

Y Rheolwr
Morlan
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2HH

Ffôn: 01970-617996
E-bost: morlan.aber@gmail.com
Gwefan: www.morlan.org.uk

Am ragor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth
James Pantyfedwen, cysyllter â:

Yr Ysgrifennydd Gweithredol
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Pantyfedwen
9 Stryd y Farchnad
Aberystwyth SY23 1DL

Ffôn: 01970 612806
E-bost: pantyfedwen@btinternet.com
Gwefan: www.jamespantyfedwenfoundation.org.uk

Gwragwn Tanc: Gwnawn Dangnefedd

'Tanc y rom ne: Boed tangnefedd rhyngom'

Does dim gwadu nad yw iaith, pob iaith, yn rhyfeddod, a gallu'r hil ddynol i siarad iaith yn wyrth. Ym mha bynnag oes, ym mha ran bynnag o'r byd, rydym ni, fel pobl, wedi gallu cyfathrebu â'n gilydd trwy gyfrwng geiriau, wedi gallu rheoli anadl a chyhyr, rheswm a dychymyg i fynegi a threfnu ein meddyliau drwy gyfrwng iaith. Does dim amser heddiw i godi cwr y llen ar hen, hen benbleth yr athronwyr a'r gwyddonwyr, yr ieithwyr a'r addysgwyr am natur y berthynas ddyrys rhwng iaith a meddwl – dilema cyw ag wy os bu erioed – na gofyn i ba raddau y mae iaith yn 'cyfyngu' neu'n 'llywio' ein meddwl a'n meddyliau ni (ac mae'r ferf a fyddai'n cael ei dewis yn arwyddocaol), ond efallai bod tri chwarter awr yn ddigon i ni ganolbwyntio ar ambell ffordd o feddwl ac ambell syniad gwerthfawr sydd ymhlyg mewn ambell air a ffurfiwyd yn ein hiaith ni.

Pan awn ni ati i ddysgu iaith fel oedolion, byddwn ni'n poeni'n rhy aml am ddod o hyd i eiriau sy'n cyfateb yn union â'i gilydd, a phoeni'n dost i sicrhau ein bod ni'n ateb rheolau gramadeg. Yn hyn o beth, rydym ni'n anghofio'r ddwy elfen arall holl bwysig sy'n gwneud iaith – ei halaw hi a'i chyd-destun hi. Ystyriwch yr 'alaw', neu'r 'parabl', a sut mae hithau'n amrywio o iaith i iaith. Gallwn ni egluro hyn yn hawdd heb feddwl ymhellach na hynodrwydd hardd y modd y mae'n cefndryd ni yn yr Ariannin yn siarad Cymraeg, hynodrwydd sy'n deillio o'r ffaith eu bod yn defnyddio Cymraeg ar alaw Sbaeneg.

Ystyriwch y cyd-destun wedyn, ac un peth sy'n egluro'r pwynt hwn yn weddol hawdd yw sylweddoli fod gan bob iaith dan haul eiriau anghyfieithiadwy. Arhoswn ni gyda'r Sbaeneg, a meddylwch am air fel *sobremesa* – gair (cyfansawdd) sy'n disgrifio'r cyfnod hwnnw pan fydd y Sbaenwyr yn eistedd o gylch y bwrdd wedi'r pryd bwyd. Mae'r llestri wedi eu clirio, ac ambell wydraid o ddŵr neu win yn unig yn aros. Beth sy'n digwydd nesaf? Mae'r cwmni'n oedi i sgwrsio. 'Sdim taraf' arnyn nhw, fel mae pobl Pencaer yn ei ddweud. Dim brys. Does dim gair yn y Gymraeg na'r Saesneg am *sobremesa*, yn llythrennol: 'uwch y ford', am nad ydym ni yn y gwledydd gogleddol yn tueddu oedi wedi cinio. Ac eto, gallwn ni ddychmygu'n iawn beth yw e.

Enghraifft hyfryd arall yw *tartle* – berf y Sgotiaid yw hon – sy'n disgrifio'n gwbl benodol yr eiliadau hynny o oedi a dwrlyncu, pan y'ch chi'n cyflwyno rhywrai i rywun ac wedi anghofio'n deg eu henw nhw. Eto, does dim gair gennym ni yn y Gymraeg, ond yn sicr, a siarad o brofiad poenus, mae angen gair arnom ni amdano (... oni bai bod gormod o gas gyda ni feddwl yn rhy hir dros yr embaras!).

A dyma un o'r pethau rhyfeddol am y geiriau 'anghyfieithiadwy' hyn i gyd: ymron pob achos gallwn bawb ddirnad y cyd-destun newydd yn syth, er nad yw ein cyd-destunau beunyddiol, arferol ni ddim wedi bod yn gwasgu digon am yr angen i greu gair. (Anghofia'i fyth gyfieithu alaw werin o Albania i'r Gymraeg a'i chlywed

hi'n swnio'n rhyfeddol o od gan ei bod yn canu clodydd trwyn y cariad ... dyw hyn, rywsut, ddim yn rhan o'n cyd-destun ni. Amrannau, rhuddiau, gwefusau – popeth yn iawn, ond nid trwyn. Ond wedyn, mae gan bobl Albania dros ugain gair am fwstas, a rhywbeth yn debyg am aelïau.)

Cyfeiriais uchod at eiriau Sbaeneg, Sgoteg ac Albaneg, ond wrth reswm mae gyda ni yn y Gymraeg hefyd bentwr o eiriau unigryw, a phan ofynnodd golygydd y cylchgrawn *Planet*¹ i mi beth amser yn ôl am gyfraniad i'r gyfres *Key Words*, doedd gen i ddim amheuaeth pa un o'r geiriau hyn yr oeddwn i am ei ystyried. Yr unig broblem oedd, nad oeddwn i'n gwybod yn hollol beth oedd ei ystyr.

Mae cyfres y 'geiriau allweddol' yn ymateb i ysbrydoliaeth gan Raymond Williams, y Cymro disglair a gyfrannodd gymaint i'n stôr ni o feddylïau am ddiwylliant, ac a luniodd gyfrol ar eiriau arwyddocaol: *Key Words, a Vocabulary of Culture and Society*. Geiriau cyffredin sydd rhywfaint yn anodd i'w diffinio yw'r rhain i gyd, geiriau rydym yn eu dirnad yn iawn, ond heb efallai eu deall yn llawn. (Ac os y'ch chi am ymdriniaeth gynnil, annwyl a gwych o'r gwahaniaeth rhwng 'dirnad' a 'deall', darllenwch *O Tyn Y Gorchudd*, Angharad Price.)

Fy newis i oedd *tangnefedd*. Fel Cymry Cymraeg, synhwyrwn ei fod yn wahanol i 'heddwch' – ond mae sut yn gywir y gellid esbonio'r gwahaniaeth yn fater arall.

Daeth y cais i lunio'r erthygl nôl ym mis Ionawr ac, os cofiwch chi, dechreuodd y flwyddyn gyda'r helbul gwaedlyd ym Mharis. Daeth tri gair Ffrangeg yn allweddeiriau amlwg yn ein disgwrs cyhoeddus a gwleidyddol: *Liberté, Égalité, Fraternité*. Dyna oedd bloedd y penwadau. Ond wrth wrando'n ofalus yn yr oriau wedi'r ymosodiadau, daeth hi'n amlwg nad geiriau cyfwerth oedd y rhain. *Liberté* oedd uchaf ei gloch heb os. Clywyd *Égalité* bob nawr ac yn y man; ond erbyn iddi ddod yn dro ar *Fraternité* roedd pawb fel pe byddent wedi colli anadl yn llwyr.

Y broblem oedd bod 'rhyddid' y placardiau mewn disgord â'r 'cydraddoldeb' a 'brawdoliaeth' sydd hefyd yn rhan o'r slogan. Yn nemocratiaeth y gorllewin, wedi gosod 'rhyddid' ar bedestal y gwerthoedd aruchel, rydym wedi esgeuluso ystyried nad 'rhyddid' pawb mo hwn. Yn ôl ein cyfundrefn ddemocrataidd ni, gellid dadlau eich bod chi'n 'rhydd' cyhyd â'ch bod chi'n un o'r mwyafrif: chi sy'n cael gwneud y rheolau a chytuno'r hawliau neu'r breintiau. Drwy gwtsho lan yn dynn, dynn, mae 'rhyddid' a 'democratiaeth' rhyngyddyn nhw wedi gadael 'cydraddoldeb' yn gymar gwely bach anhapus; ac am 'frawdoliaeth' – wel, mae'r pwr dab yn ei chael hi'n anodd iawn dod mewn i'r *boudoir* o gwbl.

Gall 'cydraddoldeb' hawlio'r tamed oer ar bwys y drws gan honni mai, er na chwaraeodd y mwyafrif a'r lleiafrif rannau cydradd yn y broses o osod y rheolau, cyn gynted ag y bo'r rheolau yn eu lle, mae'r mwyafrif a'r lleiafrif yn union gydradd yn eu hawl ar y breintiau, ac yn gallu mwynhau'r union amddiffyniad –

¹ *Planet, The Welsh Internationalist* 218 Haf, tt 13-18, gol. Emily Trahair

cyn belled â'u bod nhw wrth gwrs yn aros o fewn y rheolau, sydd, o bosib yn anathema iddynt.

Ond am 'frawdoliaeth', wel, gadewch i ni gofio mai rhyw hwyrddyfodiad a ychwanegwyd at y ddeuawd *liberté-égalité* ydoedd o'r cychwyn. Problem 'brawdoliaeth' yw ei bod yn mynnu newid persepectif. Mae 'rhyddid' yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar yr 'hunan', heb gyfeiriad penodol at 'arall'. Gall 'cydraddoldeb' hefyd, er bod arno angen 'arall' fel ffon fesur, ganolbwyntio'n ddigon unllygeidiog arno fe ei hunan. Mae 'brawdoliaeth' fodd bynnag yn dod â'r hunan a'r llall, yr 'arall', at ei gilydd. Yn wir, nid oes gan 'frawdoliaeth' unrhyw ystyr heb y cymundeb hwn.

Gallwn roi prawf ar y theori yma drwy edrych ar yr arddodiaid a'r rhagenwau cyfatebol. Gwrandewch ar sut gall 'rhyddid' a 'chydaddoldeb' fynd yn dwt gydag 'ar gyfer' neu 'i', ond mae 'brawdoliaeth' yn gofyn am 'rhwng', neu o leiaf os yw'n mynd gydag 'ar gyfer' neu 'i', yna o ran y person cyntaf, mae'n rhaid newid o'r unigol i'r lluosog; rhyddid *i fi*, cydraddoldeb *i fi* – popeth yn iawn, ond all 'brawdoliaeth' ddim fod *i fi* yn unig, mae'n rhaid iddo fod *'i ni'*.

A'r broses hon o gyfod yr hunan ochr yn ochr a'r llall yw un o'r pethau creiddiol sydd, dybiaf i, yn nodweddu'r allweddair *tangnefedd*. Un o'r enghreifftiau cynharaf sydd gyda ni o'r enw enigmataidd hwn yw ymddangosiad o'i ffurf dalfyredig, sef 'tanc', yn *Llyfr Du Caerfyrddin* – y llawysgrif rhyfeddol o'r 13G. Yma, yn y seithfed dryll, gwelwn yr ymadrodd: *'tanc y rom ne'* neu *'boed i tanc fod rhyngom'*. (Prin bod angen dweud mor anffodus yw'r ffurf 'tanc' wrth gwrs erbyn i ni gyrraedd dyfeisiadau ysgeler yr oes hon!) Ond sut fyddai rhywun yn cyfieithu'r ymadrodd i'r Saesneg? 'Peace' yw'r opsiwn mwyaf amlwg, ac eto, nid yw'n gwneud y tro yn hollol chwaith, nid *'peace'* ydyw'n unig, ife? Nid *'heddwch fo rhyngom ni'* yw'r ymadrodd wedi'r cyfan. Ac mae cofnod o 'heddwch' o leiaf mor gynnar â'r cyfnod hwn hefyd.

Mae'r cliw, dybiaf i, yn y rhagenw 'rom', 'rhyngom'. Tra bod 'heddwch' i raddau helaeth yn gallu bodoli ar ei ben ei hun, mae'n rhaid i 'tanc' neu 'tangnefedd' bob amser gael un arall. Canlyniad trafodaeth a negydu ydyw, canlyniad ymdrech ar ran dau endyd gwahanol. Daw hyn yn arbennig o glir mewn cofnod hyd yn oed yn hŷn a welir yn *Llyfr Teilo Sant* (neu *Lyfr St Chad* yn ôl rhai) o'r 9^{fed} ganrif. Yma, dysgwn am sut wnaeth penaethiaid dau deulu ddod at ei gilydd i ddatrys anghydfod gan orffen drwy *'wneud tangnefedd': 'gwragwn danc'*. Nid yw'r *tangnefedd* yn bod mewn ffordd abstract, mae'n dod i fod o ganlyniad i gytundeb rhwng dau.

Cofiwch, tra bod *tangnefedd* bob amser yn gofyn am ddwy elfen, gall y ddwy elfen hon weithiau fod o fewn yr un unigolyn. Mae engreifftiau lu o'r corff a'r enaid yn dod o hyd i *dangnefedd* rhyngddynt. Gall hefyd fod rhwng y dynol a'r dwyfol, ac mae digon o esiamplau sy'n cofnodi ceisio *tangnefedd* rhwng dyn a Duw.

Tangnefedd: arwydd o gymod rhwng dau – digon teg, ond sylwch nad arwydd o ‘gadoediad’ mohono. Mae rhywbeth bregus yn y gair hwnnw, nid ydyw yn ddim ond toriad yn y rhyfel, rhyw ymdrech at heddwch dros dro yn aml iawn. Does dim yn fyrhoedlog am *dangnefedd*. Wedi’r cyfan, roedd y *tanc* a wnaed rhwng y ddau bennaeth hwnnw yn *Llyfr Teilo Sant* yn un a fyddai’n para ‘*in ois oisau*’. Felly wrth geisio diffinio’r allweddair hardd hwn, mae’n rhaid i ni ganolbwyntio nid yn unig ar y diweddglô, y canlyniad bendigedig, ond hefyd ar yr ymdrech a’i ragflaenodd. O ran yr ymdrech hon, ni fyddai unrhyw ferf yn dechrau gydag ‘ail’, neu yn Saesneg ‘re’ yn gwneud y tro. Nid yw ‘reconciliation’, na ‘chymodi’ o ran hynny, yn addas, oherwydd maen nhw’n awgrymu bod rhyw gytgord wedi bod o’r blaen, ac mai mater o ail-sefydlu hwnnw yw hi. Ond nid yw *tangnefedd* yn perthyn i idiom y ‘*tabula rasa*’. Nid idiom y bwrdd glân mo *tangnefedd*, ond idiom y bwrdd newydd sbon, a bwrdd sy’n mynd i bara byth. Mae holl wead amyneddgar y gair *tangnefedd* wedi rhoi iddo sicrwydd, dwyfol bron, o fodlondeb a llonyddwch sy’n rhyw awgrymu heddwch tragwyddol os mynnoch.

Wrth ystyried yr haenau ‘dwyfol’ sy’n perthyn i’r gair, ar wahân i’r elfen ‘nef’ sy’n llechu yn y canol ac yn ein harwain yn yr isymwybod yn sicr at syniad o baradwys Duw, rhaid troi at y Beibl. Mae’n ddigon posib ei bod hi’n arwyddocaol mai dim ond deirgwaith y down ni o hyd i *tangnefedd* yn holl ryfelgarwch yr Hen Destament, ond does dim prinder ohono yn y Testament Newydd, yn enwedig ar ôl Matthew 5 adnod 9 – o’r fan honno ymlaen, ymddengys dros hanner can gwaith yng nghyfieithiad 1988.

Ac fel bo’r disgwyl, allwn ni ddim gorbwysleisio arwyddocâd yr adnod hon o’r ‘Bregeth ar y Mynydd’. Yn y Groeg gwreiddiol, cawn air rhyfeddol, astrus bron, nad yw’n ymddangos yn unman arall yn yr ysgrythurau – *eirēnopoios* – sydd yn ôl Strong² yn hannu o’r ferf *eirēnopoieō*. Mae’r ferf honno yn llythrennol yn golygu ‘gwneud heddwch’, lle mae’r tamed ‘*eiro*’ yn golygu ‘uno â’i gilydd i greu cyfanrwydd neu gyflawnrwydd’ – y math hwn o heddwch cyfannol yw rhodd Duw; felly mae’r enw *eirēnopoios* yn golygu ‘rhywun sy’n datgan yn ddewr delerau Duw, y telerau hynny sy’n gwneud rhywun yn gyflawn, yn cysylltu’r holl elfennau hanfodol i’n cyfannu ni’. (Mae’n llond pen o gyfieithiad – bron cystal â’r cyfieithiad o’r gair Siapaneaidd *wabi-sabi* sef: ‘ffordd o fyw sy’n canolbwyntio ar ganfod harddwch yn amherffeithrwydd bywyd a derbyn yn raslon gylch naturiol tyfiant a dirywiad’!)

Gallwn ni ddychmygu mor llawen oedd William Salesbury’n teimlo wrth allu troi at ‘yr *ei tangnefeddus*’ yng nghyfieithiad 1567 wrth daclo’r adnod hon, ac yna gwefr eiliad yr ysbrydoliaeth a ddaeth dros William Morgan pan drodd e hyn i *tangnefeddwyr*, a thrwy hynny gael cymar perffaith i’r term unigryw hwnnw: ‘gwneuthurwyr dewr a gweithredol yr heddwch sydd yn ei dro yn gwneud rhywun yn gyflawn’. Mae’n glamp o ddiffiniad i glamp o air.

² <http://biblehub.com/greek/1518.htm>

Copiodd y cyfieithwyr Saesneg y syniad Groegaidd, a defnyddio gair cyfansawdd ‘*peacemakers*’, ac mae hwnnw’n gweithio’n dda. Fodd bynnag, yr hyn sydd ar goll o’r Saesneg yw’r gair am yr hyn sy’n ganlyniad i waith y dywededig *peacemakers*, fel mae *tangnefedd* gyda ni yn ganlyniad i ymdrech y ‘tangnefeddwyr’ – hynny yw, nid oes un enw yn Saesneg a fyddai’n dweud rhywbeth fel ‘*the peace-made-bravely*’. A’r syniad hwn o ‘ganlyniad gweithred bwriadol’ yw’r elfen sydd ar goll o ‘heddwch’ neu ‘*peace*’ ar eu pen eu hunain, ac sydd wrth wraidd y gair *tangnefedd*. Dyma ‘*added value*’ *tangnefedd*, wel, mwy na ‘*added*’ – hwn yw’r ‘*core value*’. (Mae’n gwbl wrthun wrth gwrs bod y gair *peacemaker* wedi dod yn gyfystyr â’r dryll, y Colt enwog a ddywedir amdano ‘*the Gun that Won the West*’ – ac am unwaith nid yw’r gynghanedd yn achub yr erchylltra! Ac mae darlith arall, heb os, ar destun yr enwau y mae’r gwneuthurwyr arfau yn mynnu eu rhoi ar eu hoffer lladd. Mynnwch gipolwg ar wefan yr MOD i weld y math o beth sy’n cael ei gynhyrchu, ac mae’n ddigon i godi gwallt eich pen chi: ‘*Apache Helicopter*’, ‘*Hellfire Missile*’, ‘*The Reaper*’ ayb.)

Dewch nôl at y Bregeth ar y Mynydd, ac mae rhywbeth arbennig iawn ynghylch holl agweddau’r adnod hon o Matthew 5. Mae miwsig y gair *tangnefeddwyr* fel pe byddai yn ein cyffwrdd ni hyd yn oed ymhellach wrth iddo gael ei lapio yn y gyfres ‘*gwyn eu byd*’. Gan fentro trosi ystyr yn hytrach na chyfieithu geiriau, mae William Salesbury yn dewis yr hen ymadrodd Cymreig hwn i gyfleu’r syniad o ‘fod wedi eu bendithio’. Y ‘*gwynfyd*’ yw’r man perffaith, nefoedd ar y ddaear, a gallwn ni ddod o hyd i esiamplau o’r ymadrodd hwn yn ymestyn yn ôl llawer cyn Beibl Cysegr Lân yr unfed ganrif ar bymtheg. Yng ngwaith Aneirin, cawn hyd iddo wrth i’r bardd hiraethu am gwmni ei gyfaill ‘*ni elwit gwinwit men na bei*’. Yn yr adnod dan sylw felly, cawn fod *tangnefedd* yn cael ei gysylltu gyda’r lle perffaith, a’r *tangnefeddwyr*, pobl *tangnefedd*, yn trigo ym mharadwys, a rhwng y ddau beth hyn cawn gyfuniad o ddau syniad sydd wedi bodoli am dros fil o flynyddoedd yng nghof y genedl.

Os dim ond unwaith yr ymddengys yr enw *action-packed* hwn yn y Testament Newydd Groeg, mae cyfieithwyr fersiynau Cymraeg y Beibl wedi dewis *tangnefedd* a’i holl amrywiadau ar bob gafael. (Daw’r *eirénē* 92 gwaith yn y Beibl, ac fe’i cyfieithir bron bob tro gan *peace* yn Saesneg, ond fel arfer gan *tangnefedd* yn Gymraeg, ac yn llai aml ‘heddwch’.³) *Tangnefedd* oedd y dewis amlwg ar gyfer y *Sar Shalom* yn Eiseia 9, lle mae ‘Tywysog Tangnefedd’ fel y Saesneg *Prince of Peace* wedi gallu bachu ar gyfuniad o gyflythrennu cofiadwy. (Tybed pam ddewisodd cyfieithwyr ein fersiwn newydd ni y cyfuniad ‘Tywysog Heddwch’?) Ac erbyn i ni gyrraedd Llythyr Paul at yr Effesiaid, mae holl efengyl Crist yn dod yn ‘Efengyl Tangnefedd’, ac fe’n hatgoffir droeon o ‘Ffordd Tangnefedd’, ‘Rhwymyn Tangnefedd’, ayb.

Mae’r adnodau a’r ymadroddion hyn yn sicr yn cyfrif am lawer o’r dyfnder ystyr a soniaredd y gloch sy’n canu yn enaid y Cymry wrth glywed y gair *tangnefedd*. Y

³ ibid

synnau hyn, y dyfnderoedd hyn, sy'n creu'r cyd-destun allweddol i iaith y cyfeiriais ato ar ddechrau'r ddarlith.

Testun allweddol arall o ran yr atseinio hwn yw cerdd Waldo Williams. Ac mae *Y Tangnefeddwyr* wedi hen ennill ei lle yn ein calonnau ni – ac wedi cael cryn gymorth yn hyn o beth diolch i fiwsig gogoneddus Eric Jones. Mae nawdd Ymddiriedolaeth Pantyfedwn heb os wedi caniatáu cannoedd ar gannoedd o berfformiadau o'r gwaith corawl hwn mewn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru. Erbyn hyn, mae'r gair *tangnefeddwyr* wedi dod yn gyfystyr ag enw Waldo, a does ryfedd mai dyma pam y dewisodd Rowan Williams y teitl '*Poetry and Peace-making*' ar gyfer ei ddarlith i Gymdeithas Waldo Williams yn 2012. '*Poetry and Peace-making*' sylwer, pe bai wedi ei thraddodi yn Gymraeg gallwn fod yn weddol sicr mai '*Barddoniaeth a Thangnefedd*' nid '*Barddoniaeth a Gwneud-Heddwch*' fyddai'r teitl.

Does dim angen i mi eich cadw chi'n mynd drwy'r gerdd, ond hoffwn nodi'r holl 'weithredu' sydd ynddi. Mae'n atgyfnerthu'r syniad nad yw tangnefedd yn dod ohono fe ei hunan – ac mae hyn yn arbennig o wir os edrychwn ni ar y fam ... Mae'r fam yn '*maddau*', mae'n chwilio '*am air o blaid*' y pechaduriaid, ac mae'r ddau riant yn dysgu mai '*rhith*' o beth yw'r syniad o '*genedl dda a chenedl ddrwg*'. A neidio o Sir Benfro i Sir Gaerfyrddin ac fe glywn ni'r un math o athroniaeth yng gweddi'r hen Barchedig Eli Jenkins, creadigaeth Dylan Thomas, wrth iddo yntau ddatgain: '*We are not wholly bad or good*' ... dyna yw ein hanes ni gyd – yn gymysg oll.

Cefndir cerdd Waldo yw'r daith adre yn Llandisilio un noson yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan oedd modd gweld Abertawe'n fflam. Yn fuan wedi'r rhyfel tanllyd hwn, mae Ifor Williams, golygydd *Y Traethodydd*,⁴ mewn penbleth o weld fod ei rifyn cyfredol dair tudalen yn brin. Gan feddwl y byddai hi'n sarhad gofyn i unrhyw un o'r cyfranwyr ysgolheigaidd arferol am bwt mor grintachlyd, dyma benderfynu y byddai'n rhaid iddo lunio rhywbeth ei hunan, ac mae'n gwneud hynny dan y teitl addas: '*Ychydig Eiriau*'. Dair degawd cyn Raymond Williams, mae yntau hefyd yn ymddiddori mewn geiriau aml-haenog, anodd eu hesbonio. Ac yn 1945, dyw hi ddim yn syndod mai dau air o'r tri y mae'n eu trafod yw 'tangnefedd' a 'heddwch'.

Mae'n nodi bod 'heddwch' yn air cyhoeddus sydd ar wefus pawb yn y cyfnod wedi'r rhyfel, ac mae'n synhwyro bod *tangnefedd* yn air sydd wedi cael ei neilltuo bron yn llwyr i faterion yr enaid ac i'r syniad o heddwch mewnol, preifat bron iawn. Ac eto, mae'n dadlau nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng y ddau air mewn Cymraeg cynnar, gan esbonio fod yr esblygiad i gyfeiriadau rhywfaint yn wahanol yn broses anochel i efaill-eiriau mewn unrhyw iaith fyw. Ta waeth am hynny, wrth esbonio etymoleg heddwch, dysgwn fod 'hedd' yn dod o'r gwreiddyn 'sed', yr un cnewyllyn ag a geir yn y Saseneg *sit* a *settle*. Mae'n ddiddorol nodi felly fod 'heddwch' fel *tangnefedd* yn awgrymu elfen o weithred, ond eto, rhaid

⁴ Williams, I. 'Ychydig Eiriau' yn *Y Traethodydd* Cyf. C, 434 (1945) tt 182-185

cydnabod bod gwahaniaeth sylweddol rhwng ‘setlo’ rhywbeth a ‘gwneud’ rhywbeth.

Yn anffodus, mae’r cwta dair tudalen yn mynd yn drech na Williams, a does dim lle iddo ymhelaethau ar y trydydd gair sef *tangnefedd*. Mae’n cloi’n awgrymog gan ddweud bod llawer mwy i’w ddweud, cyn crynhoi drwy ddatgan efallai: *‘bod heddwch yn fanwl yn golygu cyflwr o dawelwch, a bod tangnefedd i ddechrau yn pwysleisio’r cytundeb sydd yn ei sicrhau’*.

Ddeng mlynedd a thrigain yn ddiweddarach, a chythrwfl creulon a brwydrau brwnt yn parhau ar bob tu, mae gwir angen prosesau cytundeb – prosesau all ddod â phobl gyda’i gilydd i’r gwynfyd. Roedd gan gyfraith ganoloesol Cymru syniad da, pan ddeddfodd fel hyn: *‘Ym pop dadleu ydyly bot y pump hyn. Guys a hawl ac ateb a barn athagneued.’*⁵ Proses ddelfrydol: problem, holi, ateb, dod i gasgliad ac yna *tangnefedd* ... Saith gan mlynedd a mwy yn ddiweddarach, onid yw hi’n hen bryd tynnu *tangnefedd* mas o’r ysgrythurau a’r cysygreddig a’i roi nôl yn y seciwlar – mwy na hynny, onid yw hi’n bryd ei dynnu mas o Gymru a’i roi i’r byd?

Gyda’r gair hwn gallwn ddychmygu a sbarduno prosesau nad ydynt ‘i fi’ yn unig ond ‘i ni’ a ‘rhyngom ni’, a gweithio gyda’n gilydd i gael ‘rhyddid’ sydd hefyd yn ‘frawdoliaeth’. Oherwydd mae ‘rhyddid’ nad yw’n parchu dyheadau a chredodau’r lleill, brodyr a chwiorydd y lleisiau llai, yn ‘rhyddid’ na all fyth ddod â *thangnefedd* i’n byd.

Nid *tangnefedd* yw’r unig air allweddol yn y stori hon. Mae nifer o eiriau eraill sy’n chwarae rhan bwysig, a chydag un llygad ar y cloc, mentraf gynnig ein bod yn edrych yn gyflym ar ddau arall sy’n werth eu nodi, sef ‘cymod’ a ‘cyflafareddu’ (gair mawr Yr Apostl Heddwch, Henry Richard, Tregaron). Y peth am ‘cyflafareddu’ yw ei fod e’n llond ceg o air anodd i’w ynganu ond, os yw ‘cymod’ yn haws i’w ddweud, mae’r ddwy weithred lawn mor anodd â’i gilydd i’w cyflawni, ac i raddau maen nhw’n eiriau sydd wedi mynd mas o ffasiwn – os buon nhw’n ffasiynol erioed. Rhaid cyfaddef fy mod i ar un adeg wedi gresynu bod enw mor ddieithr ar Gymdeithas y Cymod – gan feddwl y byddai rhyw gyfuniad fel Y Gymdeithas Heddwch yn enw gwell. Erbyn hyn, fodd bynnag, rwy wedi dechrau newid fy meddwl. Oherwydd onid yw ‘cymod’ yn air sy’n rhoi sylw i’r weithred? Mae cymod (fel cyflafareddu) yn cydnabod tri pheth:

1. yn y lle cyntaf mae’n awgrymu ymdrech
2. yn ail, mae’n cydnabod realiti’r cyflwr dynol
3. yn drydydd, mae’n arwyddo gobaith.

Mae ‘cymod’ yn cydnabod byddwn, mi fyddwn ni fel pobl, o dro i dro yn anghytuno gyda’n gilydd – ond ein dyletswydd ni yw datrys yr anghytuno hwn drwy gymodi, nid drwy ymladd. ‘Cyflafareddu’ wedyn yw’r hyn sy’n gwneud cymod

⁵ gol. A.W. Wade Evans 1909

yn bosib. Proses o eistedd gylch y bwrdd yn trafod gwahaniaethau ac yn dod i ryw fan canol sydd, mae'n ddigon posib, heb fod yn ddelfrydol i'r naill ochr na'r llall o edrych ar y peth yn hunanol yn nhermau 'Rhyddid' gyda 'Rh' fawr – *Liberté*'r sloganau – ond man canol sydd, ar y llaw arall, o edrych arno o ran 'Brawdoliaeth' gyda 'B' fawr, yn ddelfrydol hollol.

Derbyniwn fod *tangnefedd* yn mynd gam ymhellach. Mae *tangnefedd* yn rhoi paradwys – y gwynfyd – o fewn ein gafael, nid man canol llai na delfrydol. *Tangnefedd* yw'r deyrnas '*megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd*'.

Cyfeiria Niclas y Glais at y weddi honno fel y Weddi Chwyldroadol. Ac y mae hi. Iddo fe, roedd y chwyldro ynddi o'r ddau air cyntaf '*Ein Tad*', gyda'r 'ein' yn ein cyfannu ni i gyd. Meddai: '*Mae gweddi'r Arglwydd yn troi'r byd wyneb i waered*'.

Mae'r weddi i gyd yn chwyldroi'r drefn sydd ohoni heddiw fel yr oedd hi ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r chwyldro yn yr 'ein' – yr 'ein' sy'n cyfannu HOLL blant y ddaear – ac yn y safiad sy'n dyheu am weld teyrnas nefoedd yn dod i'r ddaear. Wrth edrych o'n cwmpas, gwelwn ein bod ni wedi troi'n cefn ar y dyhead hwn, ac wedi canolbwyntio ar geisio cyrraedd rhyw deyrnas nefoedd 'ochr draw'. Mae hynny'n dipyn haws wrth reswm. Mae torchi llewys a mynd ati i ddod â'r lle delfrydol i'r ddaear hon o bridd a llaca, o bobl a llwythi, o anghytuno a chwmpo mas, yn llawer mwy o dasg.

Tybed, efallai, er mwyn gallu gwireddu'r chwyldro hwn, yn ein cyflwr amherffaith ni, a oes rhaid i ni chwyldroi ein syniad ni o'r hyn sy'n gwneud y ddelfryd? Ai'r man canol yw'r *tangnefedd*? Ai'r *tangnefedd* rhyngom ni yw'r 'cymod' rhyngom ni? Yn lle meddwl am ddau yn dod at *dangnefedd* am eu bod yn rhannu'r un syniad yn union o baradwys, a ddylid newid y pwyslais a chael mai paradwys y ddau yw'r man canol cymodlon?

Heb i ni ddod at y fan hon, onid oes peryg y byddwn ni'n treulio'r ddwy fil o flynyddoedd nesaf eto fyth yn credu mai cyflawni delfryd yr ychydig pwerus yw'r pennaf ddelfryd? Ac os oes angen trais i gyflawni'r ddelfryd honno, '*well so be it*'. Nid mater o adael y bwrdd cyflafareddu a'r cymodi drwy fwmial dan ein hanadl '*wel dyw hyn ddim yn ddelfrydol*' dylai hi fod efallai, ond yn hytrach newid ein hagwedd a gweld y cymod fel y ddelfryd. Dyna efallai beth yw '*gwneud tangnefedd rhyngom*'.

Beth bynnag am hynny, all *tangnefedd* rhyngom ddim bod mewn cyfnod o ryfel rhyngom. Mae holl gyflwr rhyfela, o'r lladd i'r twyll, y newyn a'r chwalu cartrefi yn gwbl groes i *dangnefedd* cyfannus. Gwreiddyn rhyfel yw casineb. Gwreiddyn *tangnefedd* yw cariad.

A beth yw cariad? Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn meddwl tybed a ydy hi'n haws meddwl am 'gariad' yn yr ystyr brawdol, cyfannus hwn, fel 'adnabod'. (A gallwch ddychmygu mai wrth geisio dilyn llwybrau meddwl Waldo y des i at y fan hon.)

Adnabod. Dyma air arall sy'n anodd iawn i'w gyfieithu – i'r Saesneg o leiaf. Nid 'to know' ydyw, ac nid 'to recognise' yn hollol chwaith. Yn hyn o beth mae'n debycach i'r *connaitre* yn Ffrangeg, neu'r *conocer* yn Sbaeneg a'r *kennen* yn yr Almaeneg (sydd i'w glywed yn *ken* hyd heddiw, er efallai mai rhywbeth Sgoteg yn bennaf ydyw, ac sy'n golygu adnabyddiaeth, dirnadaeth ac i'w glywed mewn ymadrodd fel 'beyond my ken').

Ond rhwng Waldo a'r Beibl mae 'adnabod' wedi magu ystyr dyfnach fyth yn y Gymraeg ac wedi creu cyd-destun iddo fe ei hunan sy'n werth ei ystyried. Mae'n magu pwysau rhyfeddol yn stori Emaus – 'ac *adnabuasant hwy ef*'. Ac mae nifer fawr, os nad holl gerddi Waldo, yn ychwanegu at ei faintioli. Yn wir, mae deall y syniad hwn o *adnabod* yn gwbl ganolog i ddeallholl waith Waldo. Mae e'n cyfeirio ato drwyddi draw, a hyd yn oed yn llunio cerdd gyfan amdano. A gyda llaw, rwy'n hoffi meddwl ei fod wedi rhoi cliw go hael i ni mai dyma'r allwedd i'w awen drwy sicrhau bod rhestr cerddi *Dail Pren* yn dilyn trefn y wyddor ac felly'n dechrau gydag *Adnabod*, ac yna, drwy osod y gerdd ei hun reit yng nghanol y casgliad.

Yn *Mewn Dau Gae* rydym ni'n gweld Waldo'n ymbalfalu am ffordd i gyfleu'r syniad hwn i ni, bod adnabod yn beth gwaelodol, hanfodol drwy ddweud '*adnabod, nes bod adnabod*'. Yn *Pa Beth yw Dyn?* mae'n gofyn '*Beth yw adnabod?*' ac yn ateb '*cael un gwraidd dan y canghennau*' ... hynny yw ceibo lawr, lawr, lawr nes cael at yr un man o'r lle y tarddon ni i gyd, y cyff gwreiddiol. Ac mae'r gerdd *Adnabod* yn bwrw mwy o oleuni.

Ti yw'r wyrth
[...]
Ti yw'n hanadl. [mae mor sylfaenol â hynny]
[...]
Ti yw'r dwfr sy'n rhedeg
Rhag diffeithwch pryder ac ofn.
Ti yw'r halen i'n puro.
Ti yw'r deifwynt i'r rhwysg amdanom.
Ti yw'r teithiwr sy'n curo.
Ti yw'r tywysog sy'n aros ynom.
[...]
Ti yw'r eiliad o olau
Sydd â'i naws yn cofleidio'r yrfa.
Tyr yr Haul trwy'r cymylau –
Ti yw Ei baladr ar y borfa.

Dyma'r adnabod sy'n caniatáu tosturi. Dyma'r adnabod na all y deddfau dur mo'i rwygo fel y clywn ni yn y gerdd *Cyfeillach*:

'ni thycia eu deddfau a'u dur
i rannu'r hen deulu am byth,
cans saetha goleuni pur
o lygad i lygad yn syth'.

Cerdd yw hon sy'n dweud am y milwr a gafodd ddirwy am roi ruban i ferch fach y gelyn ar ddydd Nadolig. Ond er y deddfau, er y gynnu, mae Waldo'n gwybod, yn ein hanfod, bydd y ddawn ddynol, hanfodol hon i 'adnabod' yn goroesi. Dyma'r adnabod sy'n ein gyrru ni ymlaen i holi ac ateb, dod i gasgliad a chael *tangnefedd*.

Os yw iaith yn fedr sy'n unigryw i'r ddynoliaeth, adnabod yw'r ddawn sy'n ein clymu ni yn deulu.

Yn y llythyru cyntaf bu rhyngof a Richard Morgan wrth drefnu heddiw, esboniodd mai'r gobaith oedd y byddai'r ddarlith eleni yn cysylltu mewn rhyw fodd â chofio canrif ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn benodol, a chofio canrif felly hefyd ers sefydlu Cymdeithas y Cymod.

Mae cofio, wrth reswm, yn bwysig. Mae cofio-ar-y-cyd hefyd yn bwysig, y cofio-ar-y-cyd sy'n creu 'cof cenedl' – heb gof, heb genedl. Mae'r cof hwn yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth ni. Felly mae beth y'n ni'n dewis ei gofio a beth ry'n ni'n ymdrechu i'w anghofio yn arwyddocaol. Ac mae honno hefyd yn ddarlith gyfan arall.

Ond wrth gloi, ga' i daflu rhai enwau na ddylai fynd yn angof i fewn i bair y cof-ar-y-cyd, enwau rhai o'n plith a oedd wedi meithrin dawn adnabod, rhai oedd yn gweld yn y 'gelyn' honedig frawd a chwaer. Enwau gweithredwyr a oedd yn gwybod nad trwy ymladd y mae datrys anghydfod yw'r enwau hyn; rhai oedd yn gwybod y byddai'n rhaid cyfaddawdu ar bopeth ond ar ymwrthod â thrais. Enwau nad oes iddynt gofeb yn unman. Rwyf am gynnig dwsin fel esiamplau cynrychioladol: Morgan Jones, Harold Watkins, Emrys Hughes, Ogwen Jones, Alfred Dunn, Ness Edwards, Oliver Jenkins, Albert Davies, Ben Taylor, Godfrey Conway, Thomas Percy a Richard Wittall.

Ganrif yn ôl i heddiw torpidwyd y Lusitania ar ei thaith o'r Unol Daleithiau i Lerpwl ym Môr Iwerddon gan un o longau tanfor yr Almaenwr. Ar fwrdd y llong roedd 1959 o deithwyr, rhyw 600 ohonynt yn rhan o'r criw. Collodd 1198 eu bywydau yn y môr. Mae'n hen hanes nawr, wrth gwrs, ond ymhlith y teithwyr, roedd arfau o bob math, ac efallai na ddown ni fyth i wybod yn union beth oedden nhw, ond mae cynlluniau ar y gweill y mis hwn i gofnodi'r digwyddiad, gyda'r MS Queen Victoria o llynges y Cunard yn paratoi i hwylio i Cork i goffau'r gyflafan.

Heddiw eto, mae'r bomiau'n dal yn ein plith. Heddiw, ar ddiwrnod etholiad, cawn weld a fyddwn ni, fel grŵp o genhedloedd ar yr ynys hon yn fodlon '*adnabod, nes bod adnabod*', a throi'r £100 biliwn sydd wedi ei glustnodi i adnewyddu arfau Trident, yn arian all gael ei wario i wella bywydau'r teulu mawr.

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr. Dyma un adnod ymhlith casgliad o adnodau sy'n troi'r byd a'i ben i waered, sy'n rhoi'r tlodion yn yr ysbryd ar y top, y trugarog ar y top, y galarwyr ar y top ... mae'n swnio fel manifesto cranc. Ac wrth feddwl fel hyn, mae geiriau un o heddychwyr cynharaf y Rhyfel Byd Cyntaf yn dod i'm meddwl, geiriau y Gwyddel bach, Francis Sheehy Skeffington a ymatebodd yn

rhadlon i'r dirmyg a brofodd gan rywun: *'A crank, yes, a small tool that causes revolutions'*.

Roedd Skeffington yn ogystal yn credu mewn pleidlais i fenywod, a phobl yn meddwl ei fod e'n wallgo oherwydd hynny hefyd. Daeth yr hawl hwnnw i fod. Ac fe ddaw dyddiau di-drais. Daw dydd y byddwn ni gyd yn adnabod ein gilydd. Daw dydd y byddwn wedi gwneud tangnefedd. Rhaid i ni ddal yn y gobaith hwnnw. Nid aros i bethau newid, ond disgwyl iddynt newid. Mae byd o wahaniaeth rhwng aros a disgwyl. Mae torchi llewys yn yr ail.

Meddai'r Cymro, Raymond Williams: *'To be truly radical is to make hope possible not despair convincing'*. Mae'n rhy hawdd i godi sgwyddau a siglo pen a dweud 'mae'n broblem rhy fawr' ... Gadewch i'r cofio hwn, cofio'r rhyfel, cofio'r cymod, ein hysbrydoli ni i 'wneud tangnefedd'.

Gobaith fo'n meistr. Rhodded amser inni'n was.

*Mererid Hopwood
Darlith Flynyddol Morlan-Pant-y-fedwen
7 Mai 2015*